

Cylch gorchwyl ar gyfer Grwpiau Ymchwil CReSt

Enw'r grŵp	Grwpiau Ymchwil Amlddisgyblaethol CReSt (MDRGs)
Fersiwn cylch gorchwyl a dyddiad	f0.2 – Rhagfyr 2023
Fformat a diben grwpiau	<p>Mae Grwpiau ymchwil amlddisgyblaethol CReSt (MDRGs) yn fforymau i ymchwilwyr yng Nghymru gydweithio ar ddatblygu prosiectau a phartneriaethau ymchwil cancer newydd.</p> <p>Diben y grwpiau yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dod ag ymchwilwyr at ei gilydd i ffurfio cysylltiadau ar draws arbenigeddau a chael trosolwg mwy cyflawn o'r gwaith ymchwil a gynhelir ledled Cymru. • Cynnig cyflwyniadau gan siaradwyr sy'n cyd-fynd â'r thema CReSt berthnasol, i annog y grwpiau i ddatblygu syniadau ymchwil a phrosiectau cydweithredol newydd. • Nodi cyfleoedd ariannu agored neu sydd ar ddod i hwyluso ymchwilwyr i greu ceisiadau ar y cyd • Cynnig amser a lle penodol i ymchwilwyr rwydweithio a rhannu syniadau yn ymwneud â phynciau a gyflwynir a galwadau ariannu agored • Cynnig amser a lle penodol i fynychwyr ddechrau sgysiaau ystyrllon ynghylch ysgrifennu cynigion ar y cyd, yn ymwneud â'r cyfleoedd a amlygwyd yn y digwyddiad • Integreiddio cynnwys cleifion a'r cyhoedd (PPI) i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed drwy gydol y daith o gyflwyno cynigion. <p>Bydd grwpiau ymchwil amlddisgyblaethol CReSt yn ymgynnull ddwywaith y flwyddyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Un cyfarfod wyneb yn wyneb hirach (gyda phresenoldeb ar-lein hybrid ar gyfer y rhai na allant fod yn bresennol wyneb yn wyneb) • Un cyfarfod byrrach ar-lein yn unig. <p>Gellir galw cyfarfodydd ad hoc rhyngddynt os oes angen (er enghraifft, mewn ymateb i alwad ariannol fawr neu gyfle ymgynghori sy'n codi).</p>
Amserlen cyfarfodydd	<p>Cynhelir cyfarfodydd bob 6 mis, unwaith y flwyddyn, wyneb yn wyneb (hybrid) ac unwaith y flwyddyn ar-lein.</p> <p>Lle bo modd, cynhelir cyfarfodydd wyneb yn wyneb (hybrid) yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf, gyda'r cyfarfod cyfatebol ar-lein yn dilyn ~ 6 mis yn ddiweddarach (bydd yr union ddyddiadau yn amodol ar argaeledd y cadeirydd).</p>

	Bydd agenda'n cael ei bennu a'i ddosbarthu 1-2 wythnos cyn y cyfarfod.
Cadeirydd	<p>Gall arweinwyr thema CReSt ddewis arwain y grŵp yn uniongyrchol os dymunant. Fel arall, bydd tîm canolfan WCRC yn gwahodd unigolion i gadeirio trwy ryddhau galwad i fynegi diddordeb (+/- Cyd-gadeirydd i gydbwyso arbenigedd neu gynyddu gallu i arwain cyfarfodydd) am gyfnod penodol o 2 flynedd, yn adnewyddadwy am 2 flynedd arall trwy gytundeb ar y cyd.</p> <p>Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgysylltu â WCRC ynghylch dyddiadau cyfarfodydd addas • Paratoi agendâu cyfarfodydd • Nodi siaradwyr/pynciau cyfarfod • Arwain trafodaethau yn y cyfarfodydd • Adolygu cofnodion cyfarfodydd • Adrodd gweithgarwch y grŵp a chanlyniadau i dîm canolfan WCRC <p>Ategir eu gweithgareddau gan gefnogaeth logistaidd gan WCRC.</p>
Aelodaeth	<p>Gall ymchwilwyr sy'n gweithio ym maes cancer neu bynciau cysylltiedig yng Nghymru ymuno â'r Grwpiau Ymchwil Amlddisgyblaethol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymchwilwyr clinigol • Ymchwilwyr anghlinigol • Partneriaid ymchwil lleyg WCRC (PPI) • Myfyrwyr ôl-raddedig/MD • Staff gwasanaethau ymchwil • Cyllidwyr ymchwil. <p>Gall unigolion ddewis bod yn aelodau o nifer o grwpiau yn unol â'u diddordebau ymchwil. Bydd disgwyl i aelodau gymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd, awgrymu pynciau i'w trafod yn y cyfarfodydd, a rhannu gwybodaeth gydag WCRC ar unrhyw bartneriaethau cydweithredol neu allbynnau sy'n codi o'r cyfarfodydd, i gefnogi adroddiadau WCRC.</p> <p>Gall aelodau adael grwpiau ar unrhyw adeg drwy roi gwybod i WCRC, ac ar yr adeg honno ni fyddant yn cael gwybod am gyfarfodydd a gweithgareddau sydd ar ddod sy'n berthnasol i'r grwpiau.</p>
Aelodau Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd	<p>Gwahoddir partner ymchwil lleyg WCRC sy'n cyd-fynd â'r thema berthnasol i ddod i'r cyfarfod a bydd mewnbyn gan aelodau cynnwys cleifion a'r cyhoedd yn cael ei annog ym mhob cyfarfod.</p> <p>Os na all y Partner Ymchwil thema-benodol ddod i gyfarfod, bydd WCRC yn eu gwahodd i enwebu dewis arall o grŵp Partner Ymchwil WCRC.</p>

	<p>Os na fydd unrhyw un yn gallu bod yn bresennol, bydd y Cadeirydd(ion) yn nodi unrhyw eitemau ar yr agenda y dylid ceisio mewnbwn PPI all-lein ar eu cyfer cyn neu ar ôl y cyfarfod.</p>
Mynychwyr eraill	<p>Bydd staff tîm canolfan WCRC yn bresennol i ddarparu cymorth logistaidd ac ysgrifenyddol ar gyfer y cyfarfod.</p> <p>Trwy wahoddiad gan y Cadeirydd(ion), gellir cyfethol arsylwyr/cynghorwyr eraill sydd ag arbenigedd perthnasol i ddod i gyfarfodydd penodol neu eitemau agenda.</p>
Cyfnod y Swydd	<p>Gan fod aelodaeth yn hyblyg, ni fydd yn ofynnol i unrhyw aelod ymrwymo i ddeiliadaeth benodol.</p> <p>Bydd arweinwyr thema CReSt sy'n dewis bod yn Gadeiryddion Grŵp Ymchwil Amlddisgyblaethol yn parhau yn unol â'u deiliadaeth fel Arweinydd Thema. Bydd Cadeiryddion nad ydynt yn arweinwyr thema CReSt naill ai'n cael eu gwahodd gan yr arweinwyr thema CReSt, neu yn dilyn ymateb i fynegiant o ddiddordeb, am 2 flynedd (cyfanswm o 4 cyfarfod), gyda'r opsiwn i ymestyn am 2 flynedd arall mewn cytundeb ag arweinyddion CReSt.</p> <p>Bydd partneriaid ymchwil lleyg WCRC yn aelodau o'r grŵp yn unol â'u daliadaeth yn eu rôl yn WCRC.</p> <p>Bydd proses a llwyddiant fformat y grŵp yn cael eu hadolygu ar ôl 2 flynedd (yn 2025/26), a byddant yn parhau neu'n cael eu haddasu yn ôl disgrisiwn Grŵp Arweinyddiaeth Uwch (SLG) WCRC, gyda chynghor gan Grŵp Arwain CReSt.</p>
Llinellau adrodd	<p>Mae deall unrhyw allbynnau sy'n digwydd o ganlyniad i'r cyfarfodydd yn galluogi WCRC i nodi gwerth ac effaith y grwpiau. Gofynnir i ymchwilwyr sy'n mynd i gyfarfodydd Grŵp Ymchwil Amlddisgyblaethol CReSt roi adborth i WCRC ar sut y gwnaeth y digwyddiadau helpu eu gwaith ymchwil. At hynny, gofynnir iddynt roi adborth ar lwyddiant unrhyw fidiau a gyflwynwyd o ganlyniad i gydweithio a gychwynwyd yn y digwyddiadau.</p> <p>Cefnogir y grŵp hwn gan adnoddau yn WCRC, fel rhan o'i rôl yn cydlynu darpariaeth CReSt. Bydd allbynnau allweddol y grwpiau'n cael eu cynnwys yn adroddiadau WCRC i'w gyllidwr (HCRW), ac yn cael eu rhannu fel y bo'n briodol gyda Phwyllgor Llywio WCRC/CReSt, a bwrdd cynghori allanol WCRC ar gyfer mewnbwn strategol.</p>
Cofnodion	<p>Bydd tîm WCRC yn creu cofnod byr o bwyntiau a champau gweithredu allweddol. Bydd y rhain yn cael eu dosbarthu i'r grŵp ar ôl i'r Cadeirydd eu hadolygu. Bydd sleidiau'n cael eu dosbarthu i aelodau'r grŵp yn dilyn y cyfarfod, pan fydd cyflwynwyr yn rhoi caniatâd i wneud hynny.</p>
Cworwm	<p>Nid oes cworwm penodol er mwyn i'r cyfarfod fynd rhagddo; os yw'r Cadeirydd/Cadeiryddion o'r farn bod y presenoldeb disgwyliedig yn</p>

	annigonol ar gyfer cyfarfod cynhyrchiol, gall y Cadeirydd ddewis canslo neu aildrefnu.
Gwrthdaro buddiannau	Rhaid i aelodau ddatgan, cyn neu ar ddechrau'r cyfarfod, unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro sy'n berthnasol i eitemau penodol ar yr agenda.
Cyfrinachedd	<p>Mae'r grŵp hwn yn bodoli i hwyluso'r gwaith o gydlynu, cydweithio a chyfathrebu rhwng rhannau o'r gymuned ymchwil canser, yn unol â phob un o'r themâu a ddewiswyd. Disgwylir y bydd gwybodaeth lefel uchel o'r cyfarfod yn cael ei throsglwyddo i bartïon eraill at ddibenion hyrwyddo cydweithio, ac i WCRC adrodd ar ganlyniadau cyfarfodydd.</p> <p>Fodd bynnag, gofynnir i aelodau ddefnyddio eu barn cyn rhannu gwybodaeth, allbynnau neu ddogfennau manylach ac fe'u hanogir i geisio caniatâd siaradwyr unigol neu awduron dogfennau os oes unrhyw amheuaeth ynghylch eu haddasrwydd ar gyfer eu hanfon ymlaen.</p>